Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Ionawr 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Ionawr 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion a Chasgliadau ....... 2**

**1. Cyflwyniad ....... 5**

**2. Y cefndir ....... 6**

**3. Costau Comisiwn y Senedd ....... 16**

**4. Costau Llywodraeth Cymru ....... 31**

**5. Adolygiadau Ffiniau a Chostau Etholiadau ....... 35**

**Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar. ....... 41**

# Argymhellion a Chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, os bydd newidiadau sylweddol i'r Bil wrth iddo fynd drwy'r Senedd, fod y Gweinidog yn cynnal y gwaith modelu angenrheidiol ynghylch costau posibl ac y dylid diweddaru'r rhain mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn modelu'r arbedion a ragwelir o ganlyniad i'r Bil hwn, a hynny er mwyn mesur effaith y manteision o ran gwaith craffu, gan gyfeirio'n benodol at y gwaith craffu gwell ar ddeddfwriaeth a chyllidebau yn y Senedd, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i gyflwyno costau sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd fel rhai sydd wedi'u neilltuo yn ei ddogfennaeth ar y gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal gwaith modelu pellach o gostau staff y Comisiwn i gynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf i ddarparu ystod o gostau, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud gwaith modelu i ddeall effaith cynnydd yn nifer y pwyllgorau, y tu hwnt i'r tri phwyllgor ychwanegol a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ar y manteision o ran gwaith craffu sy'n deillio o'r Bil, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal dadansoddiad cost a budd o nifer y pwyllgorau ychwanegol y gallai fod eu hangen ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal adolygiad o gyfluniad presennol swyddfeydd yr Aelodau yn Nhŷ Hywel, gan gynnwys:

- asesiad a dadansoddiad cost a budd ar y defnydd o weithio cynllun agored; ac
- asesiad o'r defnydd o ynni. .......... Tudalen 29

**Argymhelliad 8.** Yng ngoleuni'r system etholiadol newydd a allai arwain at gynnydd yng nghostau teithio, llety preswyl a staff yr Aelodau, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn ailasesu'r costau hyn ac yn darparu ystod o gostau yn hytrach na defnyddio costau cyfartalog yr Aelodau presennol, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. .......... Tudalen 29

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn diweddaru'r amcangyfrifon cost sy'n ymwneud ag Aelodau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

- gan ddefnyddio'r wybodaeth ariannol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau diweddaraf sydd ar gael; ac
- yn cynnwys y cyflog ychwanegol i arweinwyr grŵp gwleidyddol (nad yw yn y llywodraeth) ar gyfer pob Aelod yn eu grŵp (hyd at yr uchafswm y mae'r Penderfyniad yn ei ganiatau). .......... Tudalen 30

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud rhagor o waith i asesu'r effaith y bydd gwahanol ddemograffeg o ran Aelodau sy'n cael eu hethol o'r newydd yn ei chael ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau. .......... Tudalen 30

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch yr amserlen waith a gaiff ei dilyn ar ystadau'r Senedd a Thŷ Hywel os na chytunir ar y Bil. .......... Tudalen 30

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu tystiolaeth i gadarnhau'r honiad na fydd angen unrhyw staff ychwanegol ar Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gynnydd yn aelodaeth y Senedd. .......... Tudalen 33

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i asesu'r effaith y bydd cynnydd mwyaf yn nifer Gweinidogion Cymru yn ei chael ar nifer yr Aelodau sydd ar gael i ymgymryd â rôl graffu, a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr arbedion posibl o ganlyniad i waith craffu gwell y cyfeiriodd y Gweinidog atynt. .......... Tudalen 33

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i ddeall lefel yr anwadalrwydd o ran aelodaeth o un Senedd i'r nesaf, a'r goblygiadau cost cysylltiedig, gan gynnwys yr effaith ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau, yng ngoleuni'r newid i gylch etholiadol pedair blynedd..................Tudalen 40

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi eglurhad o'r costau posibl a nodwyd i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol o ganlyniad i gylch etholiadol pedair blynedd. ..........................................................................................................................................Tudalen 40

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gostau unwaith y bydd yr holl newidiadau perthnasol i'r ffiniau wedi'u cwblhau, a hynny er mwyn galluogi'r Pwyllgor neu bwyllgor cyllid yn y dyfodol i ddeall effaith ariannol lawn y Bil. ........................Tudalen 40

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach. ............................................................................................................................. Tudalen 14

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylai amcangyfrifon cost sy'n ymwneud â nodau polisi amgen, sef yw hynny gynnydd gwahanol yn nifer yr Aelodau o'r Senedd neu gyflwyno trefniadau rhannu swydd ar gyfer Aelodau, gael eu cynnwys yn yr asesiad effaith ar gyfer y Bil hwn. Fodd bynnag, pe bai polisïau o'r fath yn cael eu dilyn, naill ai gan ddefnyddio'r Bil hwn neu drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol, dylid cyflwyno amcangyfrifon manwl o gostau i gyd-fynd â hwy er mwyn llywio gwaith trafod gan y Senedd hon neu Seneddau'r dyfodol..................................Tudalen 15

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)[1] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol,[2] gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Gweinidog), ar 8 Medi 2023.

**2.** Ar 19 Medi 2023, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn.[3]

**3.** Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi mai diben cyffredinol y Bil yw:

> *"… gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Mae'r diben hwn yn adlewyrchu bwriad y Pwyllgor Diben Arbennig, a nodwyd yn ei adroddiad, i sicrhau "senedd gryfach i gynrychioli pobl Cymru."*[4]

**4.** Penododd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yr Athro Ailsa Henderson[5] fel ei Gynghorydd Arbenigol, i gynorthwyo yn ei waith o ystyried goblygiadau ariannol y Bil.

**5.** Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil ar 11[6] ac 18 Hydref[7]. Mae amserlen y sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn Atodiad 1.

**6.** Gwnaeth y Pwyllgor Biliau Diwygio, a sefydlwyd ar 12 Gorffennaf 2023, waith craffu ar bolisi'r Bil.[8]

**7.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil hefyd o ran y materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.[9]

---

[1] Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol
[3] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2023
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 11
[5] Athro Gwyddor Wleidyddol ym Mhrifysgol Caeredin; Cadeirydd Boundaries Scotland a Chomisiynydd yng Nghomisiwn Ffiniau'r Alban
[6] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Hydref 2023
[7] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2023
[8] Y Pwyllgor Biliau Diwygio
[9] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Y cefndir

## Diben y Bil a'r angen amdano

**8.** Mae darpariaethau'r Bil yn darparu ar gyfer:

- cynyddu maint y Senedd i 96 Aelod;
- cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i 17 (ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), a rhoi pwerau i gynyddu'r terfyn hwn ymhellach i 18 neu 19;
- cynyddu uchafswm nifer y Dirprwy Lywyddion y gellir eu hethol o'r tu mewn i'r Senedd i ddau;
- newid system etholiadol y Senedd i ethol Aelodau drwy system rhestr gyfrannol gaeedig;
- ailbwrpasu ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru fel Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a hynny er mwyn rhoi'r swyddogaethau i'r Comisiwn weithredu'r newidiadau angenrheidiol sy'n deillio o'r Bil;
- dychwelyd i'r amser arferol rhwng etholiadau cyffredinol arferol y Senedd, sef pedair blynedd;
- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr i'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd fod yn preswylio yng Nghymru;
- adolygiad o'r ddeddfwriaeth yn dilyn etholiad 2026; a
- mecanwaith ar gyfer ystyriaeth y Senedd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd, yn y Seithfed Senedd.[10]

## Cost y Bil

**9.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno costau dros gyfnod gwerthuso o wyth mlynedd, o 2024-25 i 2031-32. Ar ôl y cyfnod hwn, rhagdybir y byddai'r

[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 11

newidiadau y mae'r Bil yn eu rhoi ar waith wedi cael amser i gyrraedd "cyflwr sefydlog".[11]

**10.** Amcangyfrifir y bydd cyfanswm costau net gweithredu'r ddeddfwriaeth rhwng £99.7 miliwwn ac £119.6 miliwn dros y cyfnod gwerthuso.

**11.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod disgwyl i Gomisiwn y Senedd ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau gweinyddol, a fydd yn cael eu trafod yn fanwl ym mhennod 3. Bydd costau eraill yn cael eu hysgwyddo gan y canlynol:

- Llywodraeth Cymru (a drafodir ym mhennod 4);
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol (a drafodir ym mhennod 5).

**12.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r amcangyfrifon o gostau y bydd y Comisiwn yn eu hysgwyddo yn seiliedig ar ddau senario: Senario newid lleiaf a newid mwyaf.[12]

**13.** Mae'r costau i'r Comisiwn felly'n seiliedig ar ragdybiaethau cyffredin y cytunwyd arnynt gan Gomisiwn y Senedd, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes[13] a Bwrdd Taliadau Annibynnol[14] y Senedd.[15]

### Rhagdybiaethau cyffredin a gwaith ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru ar gostau

**14.** Dywedodd Ken Skates, Comisiynydd y Senedd â chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethu (y Comisiynydd):

> *"… it's important [to] say that the RIA is, of course, a Welsh Government document, and the calculations that the Welsh Government made are based on the data that the Commission provided."*[16]

**15.** Cadarnhaodd y Comisiynydd ei fod yn fodlon ar y broses gadarn y mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn wedi'i dilyn.[17]

---

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 132
[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 138
[13] Y Pwyllgor Busnes
[14] Y Bwrdd Taliadau
[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 284
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 11 Hydref 2023
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 11 Hydref 2023

**16.** Dywedodd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd (y Prif Weithredwr) wrth y Pwyllgor:

> *"We have a joint assurance board, which is chaired jointly by colleagues from the Welsh Government and a colleague from the Commission staff, and that is a forum for exchange of information and communication as well."*[18]

**17.** Disgrifiodd y Prif Weithredwr y broses ar gyfer gwaith Comisiwn y Senedd o amcangyfrif y costau:

> *"We were asked by the Welsh Government in December 2022 to provide these costs; we provided them in March 2023. And thereafter, there was an ongoing dialogue with officials to make sure that they understood how we had based the cost. During that phase, costs were reprofiled at the Government's request—to reflect a four-year term, for example, and to adopt the methodology that the Welsh Government was adopting for the RIA. And then, the final figures that were used in the RIA were communicated to the Llywydd by the First Minister, and that was just prior to the introduction of the Bill. So, there's been a perfectly proper process of dialogue between us on their preparation."*[19]

**18.** Nododd y Prif Weithredwr fod y rhagdybiaethau a wnaed ar gyfer yr amcangyfrifon cost yn deillio'n bennaf o waith y Pwyllgor Diben Arbennig, a'u bod wedyn wedi cael eu mireinio mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol. Cadarnhaodd y ceisiwyd rhywfaint o gyngor proffesiynol allanol ynghylch costau cyfalaf.[20]

**19.** Cadarnhaodd Dr Elizabeth Heywood, Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd:

> *"… We were consulted to agree the common assumption—so, the high-level bit. We didn't actually take part in the calculations; those were undertaken by the Commission and the Welsh Government, but the Commission did indeed consult us, and we discussed it at board."*[21]

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 11 Hydref 2023
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 11 Hydref 2023
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 11 Hydref 2023
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 11 Hydref 2023

**20.** Cytunodd y Gweinidog fod y gwaith ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd yn broses sydd wedi mynd yn ôl ac ymlaen, a bod y cyfrifiadau wedi cael eu herio ar y cyd.[22] Roedd yn teimlo mai'r rhain yw:

> *"… the best estimates that we can arrive at in terms of the banding of costs, bearing in mind we have a certain number of unpredictables. For example, the classic one is we don't know how many Ministers there might be, or the status of those Ministers, whether they're Ministers or Deputy Ministers and so on. But, basically, I think they are the best estimates for the impact assessment."*[23]

**21.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a yw'n bwriadu mireinio'r amcangyfrifon costau wrth i'r rhain ddod yn fwy pendant. Cadarnhaodd y Gweinidog:

> *"…'yes'. I think this is work in progress. This isn't a static assessment, because as more becomes known, then obviously— . I mean, this is a best estimate now, but as more information becomes known, when we know about the pairing, then those things will need to be refined, because budgets have to be as transparent and as accurate as is possible."*[24]

**22.** Ychwanegodd y Gweinidog:

> *"If there are any significant or substantial changes that need to be made in terms of the best estimates that we have at the moment, then of course those need to be done. Those need to be before the Senedd."*[25]

**23.** Gofynnodd y Pwyllgor sut y mae Comisiwn y Senedd yn bwriadu cyflwyno costau yn ymwneud â diwygio'r Senedd yn ei gyllideb flynyddol, os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Dywedodd Prif Swyddog Cyllid y Senedd:

> *"Within the form of the annual accounts, somebody would be putting the actual costs in, but there is scope in other formats to create, in effect, reconciliations between the RIA and the actual costs. That's something that we would be undertaking within the Commission as we move along, recording the costs, ensuring that they are completely ring-fenced, they're identifiable, and that they're monitored and reported on. So, the*

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 18 Hydref 2023
[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 18 Hydref 2023
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 194, 18 Hydref 2023
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 198, 18 Hydref 2023

> *mechanisms in order to provide full reconciliations as we move through this process will be in place."*[26]

## Manteision ac arbedion o ran costau

**24.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y Senedd mewn gwell sefyllfa o ran:

- dwyn y Weithrediaeth i gyfrif;
- craffu'n fanylach ar bolisi a deddfwriaeth; ac
- ymgysylltu â'r etholwyr.[27]

**25.** Fodd bynnag, mae'r RIA yn datgan "ni fu'n bosibl monitro'r manteision hyn ar hyn o bryd".[28]

**26.** Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> *"Gyda mwy o Aelodau, bydd y Senedd mewn gwell sefyllfa i ddal y Weithrediaeth i gyfrif drwy graffu ar bolisïau a deddfwriaeth yn fanylach, gan gynnwys Cyllidebau a Biliau'r llywodraeth, y gellir disgwyl iddynt arwain at well deddfwriaeth a chynlluniau gwario a fyddai, yn eu tro, yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl Cymru."*[29]

**27.** Dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn fuddsoddiad mewn democratiaeth. Ychwanegodd:

> *"… I think it's value for money not only because, overall, it will deliver better governance, better scrutiny, better legislation, better use of all the public resources that the Senedd has and the role of the Welsh Government, but, in the short to medium term, it also becomes something that actually pays for itself. This is legislation that is essentially self-funding and, in actual fact, should result in net benefit over a period of time."*[30]

**28.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

> *"Mae goblygiadau costau cyffredinol y ddeddfwriaeth hefyd yn cael eu hystyried yn briodol, gan y disgwylir i waith craffu gwell*

---

[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 62, 11 Hydref 2023
[27] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 130
[28] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 130
[29] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 181
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 163, 18 Hydref 2023

> *ar gynlluniau gwario helpu i sicrhau'r gwerth gorau am arian o gyllideb flynyddol Cymru o oddeutu £24 biliwn."*[31]

**29.** Cyfeiriodd y Gweinidog at lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) a anfonwyd ym mis Mai 2020 at y Pwyllgorau ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.[32] Dywedodd:

> *"… there was interesting correspondence a while back with the auditor general… He said then, as it's the auditor general who basically oversees the ethics of some of these issues:*
>
> *'The costs and implications of policy and spending decisions taken by the Welsh Government and Senedd are significant…it is important to recognise that a 0.17% annual saving, or improvement in value, in Welsh Government spending'—at the time it was £17.5 billion, and in 2017, I think, this letter would have been written— 'would pay for 30 extra members (at £10 million a year in total, including support costs).'*
>
> *What we're saying is that these costs basically amount to 0.07 per cent of the Welsh Government's budget, so half that. So, if that 0.07 per cent improvement in the utilisation of money and resources and governance is achieved, then this legislation pays for itself. If we do any better than that, then that will ultimately result in net benefit to the Welsh Government as a whole. So, when I say it's an investment in democracy, it is an investment in democracy, but it's also an investment in getting the best use out of the resources that the Senedd overall, the Welsh Parliament overall, has."*[33]

**30.** Esboniodd Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru:

> *"The basis, I think, for the auditor general's statement around the savings was an analysis of the Public Audit (Wales) Act 2013 …. The sense from him and his office was that, had there been a greater degree of scrutiny and perhaps rigour around that Act in particular, then it may not have resulted in some of the costs that had arisen as a consequence of managing the implications of that and the unintended consequences, I*

[31] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 190
[32] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraffau 164 – 168, 18 Hydref 2023

> *suppose, of that. So, it's an extrapolation I think of that analysis that led him to that …"*[34]

**31.** Fodd bynnag, mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi:

> *"Mae'n amlwg ei bod yn anodd iawn mesur manteision craffu gwell. Fel y nodwyd uchod, amcangyfrifwn fod cost craffu llai na'r gorau ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 wedi arwain at tua £35,000 o wariant blynyddol dianghenraid, ychwanegol ar weinyddu ffioedd (tua 10% o gyfanswm gwariant o'r fath). Ni ellir allosod hyn i holl wariant Llywodraeth Cymru gan nad oes a wnelo'r rhan fwyaf o wariant o'r fath yn uniongyrchol â deddfwriaeth Cymru."*[35]

**32.** Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd effaith bosibl y manteision hyn wedi'u mesur, er enghraifft drwy ddefnyddio profiadau o seneddau eraill neu o astudiaethau rhyngwladol cysylltiedig. Dywedodd y Gweinidog:

> *"I think because each Parliament and each country—[has] its circumstances, the facts relate to those individual countries internationally. I suppose, really, what we do know is good governance leads to better outcomes, and that's why, as I said earlier, the comments from the auditor general were, I think, very clear. I have also had reflections by other bodies, for example, such as the Electoral Reform Society, and others as well. So, I think it's almost like a common standard that if you improve the quality of governance, you improve the quality of scrutiny, you get better outcomes and you get better utilisation of the resources that you apply to that."*[36]

## Barn y Pwyllgor

**33.** Mae hwn yn Fil anarferol gan Lywodraeth Cymru, gan mai Comisiwn y Senedd ac nid y llywodraeth ei hun fydd yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau. Er bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn felly wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth hon, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i unrhyw waith modelu pellach gael ei wneud ar y cyd, a hynny gan y llywodraeth a'r corff perthnasol y mae'r argymhelliad yn gymwys iddo.

[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 222, 18 Hydref 2023
[35] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 219, 18 Hydref 2023

**34.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyfanswm cost y Bil dros gyfnod o wyth mlynedd rhwng £99.7 miliwn a £119.6 miliwn. Rydym yn croesawu'r ffaith y cafwyd gwaith ymgysylltu agored a chynhyrchiol rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd ar y rhagdybiaethau a'r costau; a bod bwrdd sicrwydd ar y cyd wedi goruchwylio penderfyniadau a wnaed rhwng y ddau sefydliad.

**35.** Nodwn fod y costau wedi'u modelu ar sail rhai rhagdybiaethau, gan gynnwys senarios newid lleiaf a mwyaf, a bod costau cyfalaf wedi'u hamcangyfrif ar sail cyngor allanol. Mewn rhai achosion, mae'r rhagdybiaethau hyn yn adlewyrchu ymgynghori rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru neu ganlyniad trafodaethau'r Pwyllgor Diben Arbennig, y Pwyllgor Busnes, a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol. Fodd bynnag, mewn achosion eraill maent yn adlewyrchu arferion presennol Llywodraeth Cymru o ran modelu dewisiadau ar gyfer amcangyfrif costau sy'n ymwneud â deddfwriaeth, megis defnyddio pwynt canol y band cyflog.

**36.** Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi pryderon ynghylch rhagdybiaethau a wnaed yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymwneud ag amcangyfrifon costau ac wedi gwneud nifer o argymhellion sy'n ceisio gwella a chynyddu tryloywder costau ac arbedion posibl fel ei gilydd. Rydym yn nodi bod yr amcangyfrifon hyn yn rhai sydd 'ar y gweill' ac yn falch bod y Gweinidog yn bwriadu mireinio'r amcangyfrifon costau wrth iddynt ddod yn fwy pendant ac os bydd newidiadau sylweddol i'r Bil yn ystod ei daith ddeddfwriaethol.

**37.** Mae'r Gweinidog wedi cysylltu cynnydd yn nifer yr Aelodau â gwaith craffu a llywodraethiant gwell. Dywed y Gweinidog y bydd angen defnyddio 0.07 y cant o gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru i dalu am y ddeddfwriaeth, ac os bydd arbediad o 10 y cant yn sgil gwaith craffu gwell, yna bydd y ddeddfwriaeth yn talu amdani ei hun. Mae'n ymddangos bod y cyfrifiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar farn yr Archwilydd Cyffredinol y byddai arbediad o 10 y cant wedi'i wneud pe bai Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 wedi bod yn destun mwy o waith craffu, gan y byddai wedi arwain at lai o gostau yn sgil canlyniadau anfwriadol. Fodd bynnag, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi "[na] ellir allosod hyn i holl wariant Llywodraeth Cymru gan nad oes a wnelo'r rhan fwyaf o wariant o'r fath yn uniongyrchol â deddfwriaeth Cymru". Felly, nid yw'r enghraifft a roddwyd gan y Gweinidog, gyda'r bwriad o ddangos yr arbedion y gellid eu cyflawni, yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor.

**38.** At hynny, mae'r Pwyllgor yn siomedig na chafodd unrhyw arbedion manwl yn seiliedig ar enillion posibl o ran gwaith craffu eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a'i bod yn ymddangos bod y rhain wedi'u seilio yn lle hynny ar ragdybiaeth gyffredinol a "safon gyffredin", sef, os byddwch yn gwella ansawdd

llywodraethiant, y byddwch yn gwella ansawdd gwaith craffu ac yn cael canlyniadau gwell. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod hon yn rhagdybiaeth resymol. Fodd bynnag, dylai ymdrechion gwell wedi cael eu gwneud i feintioli a modelu'n gywir effaith ariannol y manteision o ran gwaith craffu.

**39.** Rydym yn croesawu sylwadau'r Gweinidog y byddai cynnydd yn y Senedd yn arwain at waith craffu gwell ar gyllidebau a deddfwriaeth, materion sy'n amlwg yn agos at galon y Pwyllgor hwn o ystyried ein cylch gorchwyl a'n cyfrifoldebau. Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor yn gryf o blaid unrhyw ymdrechion i wella gwaith craffu ar y gyllideb, rydym yn siomedig na chafodd amcangyfrifon manwl o'r arbedion sy'n gysylltiedig â datblygiadau o'r fath eu cynnwys.

**40.** Rydym hefyd yn cydnabod bod creu'r gweithdrefnau a'r diwylliant cywir ar gyfer gwelliannau o'r fath yn dibynnu ar nifer o ffactorau, nid dim ond cynnydd yn nifer yr aelodau. Daw'r gwelliannau disgwyliedig, ac felly arbedion o ran cost, o newid diwylliant sy'n cael ei wneud yn haws gan gynnydd yn nifer yr Aelodau, ond nodwn na fydd hyn yn digwydd yn awtomatig a'i fod yn dibynnu ar nifer o ffactorau eraill. Mae'r Pwyllgor wrthi'n adolygu protocol y gyllideb gyda Llywodraeth Cymru, yn y gobaith o ddatblygu prosesau craffu gwell fel sylfaen ar gyfer gwaith craffu gwell ar y gyllideb yn y Senedd nesaf. Rydym yn croesawu ymgysylltu parhaus gan Lywodraeth Cymru ar y materion hyn, ond gofynnwn i'r Gweinidog ddarparu manylion ynghylch sut, yn benodol, y byddai cynnydd yn nifer yr Aelodau yn gwella gwaith craffu ar y gyllideb, gan gynnwys manylion unrhyw waith modelu a wnaed.

**41.** Ers 2023-24, mae costau sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd wedi'u cyflwyno yng nghyllideb Comisiwn y Senedd fel rhai sydd wedi'u neilltuo; mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn fel ffordd o ddangos tryloywder wrth i newidiadau sy'n deillio o'r Bil hwn gael eu rhoi ar waith.[37] Rydym yn falch y bydd y Comisiwn yn parhau i fabwysiadu dull o'r fath os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol gan ei bod yn bwysig bod y costau hyn yn parhau i gael eu cyflwyno mewn ffordd glir er mwyn hwyluso tryloywder a gwaith craffu.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

[37] Y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25, paragraff 79

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, os bydd newidiadau sylweddol i'r Bil wrth iddo fynd drwy'r Senedd, fod y Gweinidog yn cynnal y gwaith modelu angenrheidiol ynghylch costau posibl ac y dylid diweddaru'r rhain mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn modelu'r arbedion a ragwelir o ganlyniad i'r Bil hwn, a hynny er mwyn mesur effaith y manteision o ran gwaith craffu, gan gyfeirio'n benodol at y gwaith craffu gwell ar ddeddfwriaeth a chyllidebau yn y Senedd, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylai amcangyfrifon cost sy'n ymwneud â nodau polisi amgen, sef yw hynny gynnydd gwahanol yn nifer yr Aelodau o'r Senedd neu gyflwyno trefniadau rhannu swydd ar gyfer Aelodau, gael eu cynnwys yn yr asesiad effaith ar gyfer y Bil hwn. Fodd bynnag, pe bai polisïau o'r fath yn cael eu dilyn, naill ai gan ddefnyddio'r Bil hwn neu drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol, dylid cyflwyno amcangyfrifon manwl o gostau i gyd-fynd â hwy er mwyn llywio gwaith trafod gan y Senedd hon neu Seneddau'r dyfodol.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i gyflwyno costau sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd fel rhai sydd wedi'u neilltuo yn ei ddogfennaeth ar y gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder.

# 3. Costau Comisiwn y Senedd

**42.** Byddai Comisiwn y Senedd yn ysgwyddo cyfanswm costau trosiannol rhwng £5,787,300 a £5,986,800 dros y cyfnod gwerthuso.[38] Mae'r costau hyn yn cynnwys:

- ehangu'r Siambr bresennol;
- creu swyddfeydd ychwanegol yn Nhŷ Hywel; a
- chostau staff sy’n gysylltiedig â rhoi’r Bil ar waith.[39]

**43.** Byddai Comisiwn y Senedd hefyd yn ysgwyddo cyfanswm costau parhaus rhwng £82,196,900 a £100,017,500 dros y cyfnod gwerthuso.[40] Mae hyn yn ymwneud â chostau ar gyfer:

- staff ychwanegol yn y Comisiwn;
- costau deiliaid swyddi;
- cyflogau Aelodau a staff cymorth; a
- lwfansau eraill.[41]

**44.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhagdybio senario newid lleiaf a mwyaf. Y rhagdybiaethau ar gyfer y senario newid lleiaf oedd y byddai’n golygu:

- hyd at bedwar grŵp plaid;
- un pwyllgor ychwanegol;
- lefel debyg o amser o ran y Cyfarfod Llawn; a
- nifer debyg o wythnosau eistedd.

**45.** Y rhagdybiaethau ar gyfer y senario newid mwyaf oedd y byddai’n golygu:

- pum grŵp plaid;
- hyd at dri phwyllgor ychwanegol;

[38] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127
[39] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127
[40] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127
[41] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127

- diwrnod ychwanegol o amser o ran y Cyfarfod Llawn; ac wythnos eistedd ychwanegol.[42]

## Costau staff Comisiwn y Senedd

**46.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd o 60 i 96 yn gofyn am staff ychwanegol yng Nghomisiwn y Senedd ar draws ei 15 gwasanaeth.[43] Mae hefyd yn nodi:

> *"Mewn rhai meysydd, aseswyd nad oedd angen cynnydd cyfrannol ac wrth baratoi'r deunydd i'w gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y dybiaeth oedd y dylid cadw'r cynnydd yn niferoedd staff y Comisiwn mor isel â phosibl ac adlewyrchu'r 'cap' ar sefydliad staffio cyffredinol y Comisiwn y cytunwyd arno yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig Comisiwn y Senedd."*[44]

**47.** Gofynnodd y Pwyllgor i Gomisiwn y Senedd roi sicrwydd y bydd yr amcangyfrif o staff ychwanegol y Comisiwn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddigon i fodloni'r cynnydd disgwyliedig yn y llwyth gwaith. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor:

> *"Yes, and we keep head count increases to a minimum generally, as I've reported to this committee before. There is a balance there, of course, between ensuring that we are realistic in our estimates and don't envisage situations that are going to put too much pressure on staff or require us to pull in additional staff later. But the process I described is the most robust one we can, working from the evidence that we have, to reach the figures that we did."*[45]

**48.** Mewn perthynas â chostau staff, dywedodd Alun Davidson, Clerc Strategaeth Busnes Seneddol wrth y Pwyllgor:

> *"When we initially presented the costs to the Welsh Government, we presented salaries on the basis of the top of the scale, but, in keeping with Welsh Government practice, they then requested that they were presented as an average figure. … Also, in our first cut of the figures, we had some allowance in there for potential pay increases, but, again, in keeping with Welsh Government practice, which I think is guided by Welsh*

[42] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 137
[43] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 140
[44] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 140
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 89, 11 Hydref 2023

*Treasury guidance, that figure of a potential pay increase was removed."*[46]

## Trefnu busnes y Senedd

**49.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn sôn am y prif feysydd o ansicrwydd wrth gyfrifo effaith cost darpariaethau'r Bil i'r Comisiwn, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch "trefnu busnes y Senedd", na fydd yn hysbys tan ar ôl i'r Seithfed Senedd ddechrau yn 2026 a phenderfyniadau ynghylch nifer Gweinidogion Cymru (caiff goblygiadau cost cynyddu nifer Gweinidogion Cymru eu trafod ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn).[47]

**50.** Gofynnodd y Pwyllgor i Gomisiwn y Senedd pa effaith y gallai'r ansicrwydd ynghylch busnes y Senedd ei chael ar yr amcangyfrifon cost. Dywedodd y Prif Weithredwr:

> *"I will just say in broad terms we had a request to provide funding for certain scenarios within a certain frame to provide a reasonable basis for cost estimates. It is difficult to make any kind of guess at how much more or less that would cost in different scenarios without knowing what the decisions are that might be taken. I think that the kind of decisions that would impact significantly, of course, would be decisions about the arrangement of business, and so it would be a change in the number of Plenary sessions or a change in the number of committees, that sort of thing."*[48]

**51.** Yn yr un modd, esboniodd Cadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol:

> *"'We don't know exactly how the new Senedd is going to work, and it's not for us to decide that.' So, there's a lot there that is unknown, and still remains unknown at the moment, but you have to start from somewhere."*[49]

**52.** Fe wnaeth y Clerc Strategaeth Busnes Seneddol roi enghraifft o'r ansicrwydd ynghylch nifer y pwyllgorau, gan ddweud:

> *"Looking at a greater change scenario, three committees were suggested under that scenario—three additional committees—and, of course, there are many variables when it comes to*

[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 11 Hydref 2023
[47] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 129
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 11 Hydref 2023
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 133, 11 Hydref 2023

> *designing a committee system—... and you look at a situation where you have three additional committees, then that's the point, really, where you start to rub up against one of the—as we understand it, anyway—desired benefits from this reform, which is around Member capacity and the need for Members not to sit on multiple committees. So, once you go beyond that sort of point, it's highly likely you would start to see Members having to start doubling up on committees again. So, in those sorts of circumstances, it seemed right to us, or to the Commission, that at about that point of three additional committees was the place to consider drawing the line in the greater change scenario."*[50]

**53.** Aeth y Clerc Strategaeth Busnes Seneddol ymlaen i nodi ei bod yn haws amcangyfrif rhai costau:

> *"Some other examples within the business modelling are more straightforward because they reflect what was said by the special purpose committee or some of the ranges that exist within the legislation. So, for example, the number of additional Deputy Presiding Officers, or the number of additional Ministers."*[51]

**54.** Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd wrth yr Aelodau y byddai newid yn nifer yr Aelodau yn effeithio'n fwy ar rai gwasanaethau nag eraill, a hynny o ran cymorth TGCh, ac o ran gwasanaethau busnes i'r Aelodau, gyda'r disgwyl y byddai mwy o Aelodau'n creu mwy o angen uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau'r Comisiwn.[52]

**55.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr:

> *"... what we have done is undertake service planning to the best of our ability with the information that we have now. We've done so as robustly as we could at the time. We've already seen further work refining those costs, as I reported to this committee last week. Our initial estimates for the year 2024-25 are more modest in staff terms than we had originally estimated, and that is part of the difference between an early estimate and the detailed budget that we will put forward when we have fully considered every opportunity for savings."*[53]

[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 11 Hydref 2023
[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 30, 11 Hydref 2023
[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 11 Hydref 2023
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 11 Hydref 2023

## Costau sy'n gysylltiedig â chynnydd yn nifer yr Aelodau

**56.** Mewn perthynas â chyfrifo costau Aelodau, nododd Cadeirydd yr Bwrdd Taliadau Annibynnol y gwnaed y rhagdybiaethau ar sail penderfyniad blwyddyn flaenorol.[54]

**57.** Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cynyddu maint y Senedd o 60 i 96 o Aelodau, a hynny drwy sefydlu 16 o etholaethau gyda chwe Aelod ar gyfer pob etholaeth.[55]

**58.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Pwyllgor Diben Arbennig wedi penderfynu fel a ganlyn:

> *"… dylai ffiniau etholiad 2026 fod yn seiliedig ar y 32 o etholaethau terfynol ar gyfer Senedd y DU a gynigid gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ôl iddo gwblhau Adolygiad Seneddol 2023, a'r rheini wedi'u paru i greu 16 etholaeth newydd."*[56]

**59.** Nododd Cadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol sut y gallai pethau weithio yn y dyfodol gyda'r etholaethau aml-aelod newydd.[57] Esboniodd:

> *"… the regional Members have a much larger area to cover, they're doing less—generally speaking; I'm generalising here—in the way of casework. Constituency Members are doing more in the way of casework and they have a much smaller area to cover. Now, constituency Members, assuming they stay on, are going to have a larger area to cover, so they've got to get used to that and how they're going to approach it. Whereas regional Members, if they stay on, will actually be in a smaller area. And so I think the ways that people work—whether it affects travel, whether it affects office space, whether it affects the number of staff or indeed the type of staff—I think that's all open for question. For example, one of the aspects that we were told was hoped for with the changes that are proposed was that, obviously, there'd be more Members available to carry out scrutiny of legislation and, hopefully, to specialise in certain areas. Now that might mean a change in the type of staffing that they need to help them with that. It's one of the things that we want to find out about."*[58]

[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 135, 11 Hydref 2023
[55] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 61
[56] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 61
[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 167, 11 Hydref 2023
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 169, 11 Hydref 2023

**60.** Ysgrifennodd Comisiynydd y Senedd wedyn at y Pwyllgor i ddarparu rhagor o wybodaeth. Mae'r llythyr yn nodi:

> *"Caiff Aelodau hawlio ad-daliad o gostau sy'n ymwneud â theithio ar fusnes y Senedd (teithio, cynhaliaeth a llety), a hynny'n unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Mae'r rhain yn talu costau teithio o fewn Cymru a'r DU a theithio rhyngwladol. Mae costau teithio yn amrywio yn ôl dewis personol yr Aelodau ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau. Heb ddealltwriaeth fanwl o sut y gall Aelodau'r Seithfed Senedd drefnu eu gwaith etholaethol mewn etholaeth aml-aelod, a heb achub y blaen ar benderfyniadau sydd eto i'w gwneud, nid oedd modd gwneud dadansoddiad manwl o gostau yn amcangyfrif nifer y nosweithiau i ffwrdd, nifer yr ymweliadau, hyd ymweliadau, dull teithio, ac o ble i ble ac ati. Felly gwnaed rhagdybiaeth resymol y byddai'r patrwm yn debyg i'r un presennol."*[59]

**61.** Mewn perthynas â chostau sy'n ymwneud â llety preswyl, dywed y llythyrau:

> *"… y rhagdybiaeth greiddiol i'r amcangyfrifon cost hyn yw bod yr ardaloedd mewnol, allanol a chanolradd yn aros fel y maent ym Mhenderfyniad 2022-23. Mae'r Penderfyniad yn darparu y gall rhai Aelodau gael ad-daliad am gostau sy'n ymwneud â llety preswyl neu aros dros nos yn ardal Caerdydd, a hynny mewn cysylltiad â chyflawni eu dyletswyddau fel Aelod o'r Senedd. Mae'r symiau y gallant eu hawlio yn dibynnu ar ble mae eu prif gartref yng Nghymru."*[60]

**62.** Dywedodd Clerc y Bwrdd Taliadau Annibynnol (y Clerc) y bydd y Bwrdd yn mynd ati cyn y Seithfed Senedd i edrych ar ba gostau a chymorth sydd eu hangen ar Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau etholaethol seneddol.[61] Ychwanegodd:

> *"And so we'll come up with a figure in terms of staffing costs, in terms of office accommodation costs, and they will typically be—. Albeit you've noted there are variations regionally in terms of costs of offices, for example, they have previously been set at a fixed budget. Where there have been differentials between Members, of course, is around the residential accommodation expenditure—the inner, intermediate, outer—because Members have different travelling needs, accommodation needs et*

[59] Llythyr gan Gomisiynydd y Senedd dros y Gyllideb a Llywodraethiant, 31 Hydref 2023
[60] Llythyr gan Gomisiynydd y Senedd dros y Gyllideb a Llywodraethiant, 31 Hydref 2023
[61] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 11 Hydref 2023

> *cetera. So, the board may or may not—I don't want to pre-empt the decisions of the board—look at different models for Members in different regions and what they might need as a Member in a particular constituency compared to another."*[62]

**63.** Nododd Cadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol fod potensial yn y Seithfed Senedd i 50 y cant o'r Aelodau efallai fod yn rhai newydd ac y gallent ddymuno cynnal eu busnes mewn ffordd wahanol.[63] Aeth yn ei blaen i ddweud:

> *"… you might have some of them who don't want any office at all and actually prefer to act in a completely hybrid way—at the moment, we only have one who does that. But we also have to be prudent, and assume that people will want the traditional office structure. And we haven't yet taken any decisions on that office cost figure, or indeed on the staffing figures for the future. That's all work that we are doing some preparatory work on at the moment."*[64]

**64.** Nododd y Clerc hefyd fod gan arweinwyr grŵp gwleidyddol (nad ydynt mewn llywodraeth) yr hawl i gyflog ychwanegol fesul Aelod o'u grŵp, ond nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfrif am hyn. Eglurodd:

> *"… So, if there's a group of three, a group leader of three, the estimates in the RIA need to be uprated by £3,000 for the one group leader in the minimal change, and up to just over £6,000 in the maximum. So, it's only a small change on the face of the RIA."*[65]

**65.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol am yr effeithiau posibl ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn sgil mwy o Aelodau. Awgrymodd Cadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol mai'r peth gorau i'w wneud oedd gofyn y cwestiwn hwn i actiwari, ond nododd:

> *"… if you have younger Members, certainly initially, the costs go down. What the demographic life expectancy is is obviously going to affect things at a later stage."*[66]

**66.** Wedyn, ysgrifennodd Cadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol at y Pwyllgor yn dilyn cyfarfod y Bwrdd gyda'r actiwari. Mae'r llythyr yn nodi:

---

[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 11 Hydref 2023
[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 11 Hydref 2023
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 11 Hydref 2023
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 138, 11 Hydref 2023
[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 11 Hydref 2023

> *"… nododd yr Actiwari ei farn y gallai aelodaeth iau – gyda bod popeth arall yn gyfartal – olygu y byddai cyfraniadau'r Comisiwn i'r Cynllun yn gostwng, gan fod eu buddion yn daladwy yn ddiweddarach na buddion aelodau hŷn, ac felly cânt eu hariannu am gyfnod hwy. Ar yr un pryd, mae prisiad yr Actiwari yn ei gwneud yn glir bod lefel ariannu a chostau parhaus y Cynllun yn sensitif i farchnadoedd buddsoddi a chwyddiant. Bydd effaith debygol aelodaeth iau yn cael ei hystyried ym mhrisiadau'r Cynllun yn y dyfodol ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill o'r fath, os caiff aelodaeth y Senedd ei chynyddu drwy ddeddfwriaeth. Cynhelir y prisiad tair blynedd nesaf ar 1 Ebrill 2026 gydag unrhyw newidiadau posibl yng nghyfraniadau'r Comisiwn yn effeithio ar gyllidebau 2027-28."*[67]

**67.** Gofynnodd y Pwyllgor i Gomisiwn y Senedd a oedd yn rhagweld cynnydd mewn costau ynni o ganlyniad i fwy o Aelodau ar ystâd y Senedd. Dywedodd y Comisiynydd:

> *"I don't think it's entirely accurate though to assume that costs would increase by a third if you're increasing the number of Members, because we've been able to identify that all of those additional Members will be able to be accommodated within Tŷ Hywel… I think it'd be far, far less than an increase in a third on the utility costs, because we already utilise the space that's going to be used for those additional Members anyway. So, if anything, it'd be pretty flat."*[68]

## Cwotâu rhywedd

**68.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y "bydd Bil arall… yn cael ei gyflwyno i gyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr i'w hethol i'r Senedd, gyda'r nod o wneud y Senedd yn fwy effeithiol drwy fod yn fwy cynrychioliadol o'r bobl y mae'n eu gwasanaethu".[69]

**69.** Pan ofynnwyd iddo am yr effaith ariannol y byddai'r newid hwn yn ei chael ar y Comisiwn, dywedodd y Gweinidog na allai weld unrhyw amgylchiadau lle y byddai'n ddrutach cael Aelodau benywaidd yn hytrach nag Aelodau gwrywaidd.[70] Felly, nid oedd yn rhagweld bod unrhyw oblygiadau o ran cost yn hynny o beth.[71]

[67] Llythyr gan Gadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol, 23 Hydref 2023
[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 11 Hydref 2023
[69] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 71
[70] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 228, 18 Hydref 2023
[71] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 230, 18 Hydref 2023

## Rhannu swydd

**70.** Mae adran 7 o'r Bil yn ymwneud â rhannu swydd ar gyfer swyddfeydd penodol yn y Senedd a Llywodraeth Cymru.[72]

**71.** Nid yw'r Bil yn cyflwyno unrhyw ddarpariaethau a fyddai'n sefydlu trefniant rhannu swyddi, ond yn hytrach mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gyflwyno cynnig i sefydlu pwyllgor yn y Senedd i adolygu'r mater o fewn chwe mis i'r etholiad cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026. O'r herwydd, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys unrhyw gostau.[73]

**72.** Er nad yw'r Bil yn cyflwyno unrhyw ddarpariaethau a fyddai'n sefydlu trefniadau rhannu swyddi, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa ystyriaeth a roddwyd i fodelu'r costau hyn. Dywedodd:

> *"The view I take is that it's not appropriate to have any modelling or to actually address that because the Bill, the legislation, won't change by any stretch the issue of job sharing. What it does is facilitate a debate. It ensures that, by the tabling of a motion by the Llywydd, there will be a discussion of that. Where that discussion goes, how far it goes, will be a matter for the next Senedd. So, I don't think it's appropriate, then, on the basis that there is no proposal for the implementation of that, to do any modelling or to do any costing on it."*[74]

**73.** Yn yr un modd, dywedodd y Prif Weithredwr nad yw'r Comisiwn wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru oherwydd nad yw'r Bil yn cynnwys unrhyw gynigion cadarn ar gyfer rhannu swyddi, ac felly ni ofynnwyd am y ffigurau hynny.[75]

## Costau suddedig

**74.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif y costau suddedig a fydd yn cael eu hysgwyddo cyn y posibilrwydd i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw'r costau hyn "wedi cael eu cynnwys

[72] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 221
[73] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 89 a 90
[74] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 232, 18 Hydref 2023
[75] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 11 Hydref 2023

yng nghostau cyffredinol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan y byddant yn digwydd hyd yn oed pe na bai'r Bil yn cael ei basio".[76]

**75.** Mae costau o'r fath ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

- ehangu'r Siambr i roi digon o le i 96 o Aelodau;
- creu swyddfeydd yn Nhŷ Hywel ar gyfer 96 o Aelodau;
- costau staff Comisiwn y Senedd;
- offer TGCh;
- gwasanaethau ar gontract allanol i'r Aelodau.

**76.** O ran ehangu'r Siambr, dywedodd y Prif Weithredwr:

> *"If we're to get the work done in time for 2026, then we need to start commissioning professional services in the coming year. That will give us some designs for the future, which will be an asset for the Commission, even should the Bill fall. But that is an example of the kind of thing that we have to commission in advance of the Bill passing."*[77]

**77.** Aeth y Prif Swyddog Ariannol ymlaen i egluro:

> *"… in 2023-24, we actually had a ring-fenced portion of our budget for Senedd reform, and that was to support the initial work that needed to be undertaken. The majority of that is actually staff-related costs, so this is additional posts that we've agreed in order to support the early stages of Senedd reform. And those would be costs that would not have been incurred by the Commission, and so the Welsh Government has categorised those as being sunk costs, so they're not connected, with the exception of the experts that we've had to commission this year to create designs, as Manon has noted—it's not costs connected with the adaptations that will come in 2024-25 and 2025-26. Costau staff yn benodol ac yn bennaf ydyw; Mae 88 y cant ohono mewn gwirionedd yn gostau staff ychwanegol yr oedd angen eu cefnogi yn 2023-24."*[78]

[76] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 151
[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 95, 11 Hydref 2023
[78] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 100, 11 Hydref 2023

## Barn y Pwyllgor

**78.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhai o'r costau i'r Comisiwn sydd wedi'u hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u cyfrifo ar sail pro rata i adlewyrchu nifer yr Aelodau ychwanegol, gan gynnwys cyflogau a phensiynau; a chostau swyddfa a staff. Mae costau eraill, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â ffyrdd y Senedd o weithio, wedi'u modelu mewn senario o newid lleiaf a newid mwyaf, sy'n amrywio rhwng £14.5 miliwn a £17.5 miliwn bob blwyddyn. Clywodd y Pwyllgor mai Senedd yn y dyfodol fydd yn gwneud rhai o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â threfnu busnes y Senedd, ac mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

**79.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau uwch ar gyfer staff ychwanegol y Comisiwn, fesul gradd. Cyfrifwyd y costau fesul gradd gan ddefnyddio canol y raddfa gyflog, heb unrhyw lwfansau ar gyfer dyfarniadau cyflog na chwyddiant. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod hyn yn cyd-fynd ag arfer safonol Llywodraeth Cymru wrth amcangyfrif costau staffio ar gyfer deddfwriaeth. Rydym hefyd yn cydnabod y byddai unrhyw ddechreuwyr newydd yn dechrau ar isafswm y raddfa gyflog. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn glir faint o staff presennol y Comisiwn sydd ar ben y raddfa gyflog. Mae'r Pwyllgor felly o'r farn y dylid gwneud gwaith modelu pellach ar gostau staff y Comisiwn i gynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf er mwyn darparu ystod o gostau. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Comisiwn wedi dilyn prosesau cadarn i amcangyfrif y staff ychwanegol sydd eu hangen ar ôl i'r Bil hwn gael ei roi ar waith, byddai'r wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol o ran deall ystod y costau cysylltiedig.

**80.** Mae'r senarios newid lleiaf a mwyaf yn gwneud rhagdybiaethau am wahanol fodelau o weithio, gyda'r senario mwy o newid yn rhagdybio cynnydd o dri phwyllgor. Y rhesymeg dros seilio costau ar yr angen am dri phwyllgor ychwanegol oedd y byddai unrhyw gynnydd mwy yn nifer y pwyllgorau yn ailadrodd yr angen i Aelodau eistedd ar sawl pwyllgor, ac y gallai hyn felly amharu ar yr enillion o ran gwaith craffu a fyddai'n bosibl o ganlyniad i gael Aelodau ychwanegol. Fodd bynnag, gallai Senedd yn y dyfodol ddewis mwy na thri phwyllgor. Os felly, mae'r Pwyllgor yn pryderu efallai na fydd y manteision o ran gwaith craffu a'r arbedion costau yn dod i'r amlwg, ac y byddai'r enillion o ran capasiti yn gyfyngedig.

**81.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r farn y bydd mwy o effaith ar rai o wasanaethau'r Comisiwn nag eraill o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr Aelodau, gan gynnwys TGCh a Chymorth Busnes i'r Aelodau. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr amcangyfrifon ychwanegol ar gyfer costau diogelwch uwch yn gysylltiedig yn benodol â'r

cynnydd yn nifer y Gweinidogion. Fodd bynnag, mae’r Pwyllgor o’r farn ei bod hefyd yn bosibl y byddai angen mwy o ddiogelwch ar y sail y gallai cynnydd yn nifer yr Aelodau arwain at fwy o ymgysylltu â’r cyhoedd, ac felly mwy o bobl yn ymweld ag ystâd y Senedd, yn ogystal ag oriau agor estynedig i’r cyhoedd. O ran gwasanaethau cyfieithu, credwn hefyd ei bod yn rhesymol ystyried y gallai cynnydd cymesur yn nifer yr Aelodau sy’n siarad Cymraeg olygu cynnydd yn y galw presennol.

**82.** O dan y system etholiadol newydd, bydd 16 o etholaethau mwy o faint yn cymryd lle y deugain etholaeth a phum rhanbarth presennol. Mae’r Pwyllgor yn pryderu y gallai creu etholaethau mwy o faint ar gyfartaledd arwain at oblygiadau ariannol o ran costau teithio Aelodau. Byddai effaith ariannol hefyd ar wariant yn ymwneud â llety preswyl Aelodau, sy’n seiliedig ar hyn o bryd ar ardaloedd mewnol, canolradd ac allanol, a nodwn na chaiff y rhain eu hail-archwilio hyd nes y bydd yr etholaethau newydd yn hysbys.

**83.** Er nad yw’r parau etholaethau yn hysbys ar hyn o bryd, mae’r Pwyllgor yn pryderu bod etholaethau mwy o faint a mwy o Aelodau yn yr etholaethau hynny yn debygol o arwain at gynnydd mewn costau teithio. Gallai hyn awgrymu bod yr amcangyfrifon teithio cyfartalog presennol ar draws Aelodau etholaethol a rhanbarthol, sy’n sail i’r amcangyfrifon o gostau teithio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddol, yn llai cywir nag y gallent fod gan y bydd Aelodau newydd yn cyfuno’r rolau etholaethol ar draws ardal ehangach yr Aelodau rhanbarthol presennol. O ganlyniad, efallai mai asesiad mwy cywir fydd modelu costau yn seiliedig ar arferion teithio Aelodau rhanbarthol.

**84.** At hynny, mae’r math o rolau a faint o deithio a wneir gan staff sy’n cael eu cyflogi gan Aelodau etholaethol a rhanbarthol ar hyn o bryd fel arfer yn amrywio, ac felly mae’n bosibl na fydd defnyddio proffil staff cyfartalog i amcangyfrif costau’r dyfodol o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu’r costau mwyaf cywir. Felly, mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch y data a ddefnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i amcangyfrif y costau hyn ac mae’n credu y gallai fod cynnydd sylweddol mewn costau teithio a staffio i Aelodau o ganlyniad i’r system etholiadol newydd.

**85.** Mae’r Pwyllgor yn nodi y bydd y cynnydd yn nifer yr Aelodau yn arwain at fwy o alw am swyddfeydd yn Nhŷ Hywel. Rydym hefyd yn nodi barn y Comisiwn ei bod yn annhebygol y bydd cynnydd sylweddol mewn costau ynni ar y sail bod y gofod a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr Aelodau ychwanegol eisoes yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o’r farn y dylid archwilio'r materion hyn ymhellach i asesu'r goblygiadau o ran costau.

**86.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig mai'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau ar gyfer 2022-23 a ddefnyddiwyd i gyfrifo costau'r Aelodau yn hytrach na'r Penderfyniad ar gyfer 2023-24, sef y flwyddyn ariannol gyfredol. Yn ogystal, er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfrifo'r costau ar gyfer arweinwyr grŵp gwleidyddol, nid yw'n caniatáu ar gyfer y cyflog ychwanegol y mae gan arweinydd yr hawl iddo ar gyfer pob Aelod ychwanegol o'r grŵp hwnnw (hyd at yr uchafswm y mae'r Penderfyniad yn ei ganiatau). Mae'r Pwyllgor o'r farn bod bylchau yn yr amcangyfrifon presennol ac yn galw am ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys y costau hyn.

**87.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y gallai'r posibilrwydd o ethol Aelodau iau i'r Senedd roi hwb tymor byr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau gan y byddai buddion yr Aelodau hynny'n daladwy yn hwyrach na rhai Aelodau hŷn, ac felly'n cael eu hariannu dros gyfnod hwy. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod barn yr actiwari, sef, gan fod lefel ariannu'r Cynllun a'r costau parhaus yn sensitif i farchnadoedd buddsoddi a chwyddiant fel ei gilydd, fod anweddolrwydd yn parhau yn lefel yr arbedion neu gostau.

**88.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu mentrau a fyddai'n annog mwy o gydraddoldeb o ran rhywedd yn y Senedd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y bydd goblygiadau cost i ddiwylliannau gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd, megis oriau gwaith hyblyg, darpariaethau ar gyfer gofal plant ar y safle a mwy o ddefnydd o weithio hybrid. Er ein bod yn cydnabod bod cynigion o'r fath yn mynd y tu hwnt i amcanion polisi'r Bil hwn, credwn ei bod yn werth asesu'r effaith y bydd mentrau o'r fath yn ei chael ar wasanaethau a chostau unwaith y bydd manylion cynigion o'r fath wedi'u cyhoeddi.

**89.** Er nad yw rhannu swydd yn un o nodau polisi uniongyrchol y Bil hwn, mae'r Pwyllgor yn nodi'r ffaith yr ystyriwyd manteision posibl dull o'r fath. Rydym hefyd yn nodi y gallai Aelodau fod yn fwy parod i rannu swydd os mai'r canfyddiad yw bod hwn yn llwybr i gymryd absenoldeb rhiant a sicrhau cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith.

**90.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau suddedig sy'n ymwneud ag ehangu'r Siambr. Mae'r rhain yn cynnwys costau ar gyfer staff ychwanegol i gefnogi camau cynnar diwygio'r Senedd a gwasanaethau proffesiynol i ymgynghori ar opsiynau dylunio ar gyfer adnewyddu ystadau'r Siambr a Thŷ Hywel. Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y byddai costau'n gysylltiedig â pheidio â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith yn awr i'w rhoi ar waith yn hwyrach. Mae'r Pwyllgor yn o'r farn bod hwn yn hawliad rhesymol

o ystyried y gallai costau adnewyddu ystâd y Senedd fod yn uwch oherwydd chwyddiant pe bai'r Bil hwn yn cael ei gyflwyno'n hwyrach.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal gwaith modelu pellach o gostau staff y Comisiwn i gynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf i ddarparu ystod o gostau, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud gwaith modelu i ddeall effaith cynnydd yn nifer y pwyllgorau, y tu hwnt i'r tri phwyllgor ychwanegol a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ar y manteision o ran gwaith craffu sy'n deillio o'r Bil, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal dadansoddiad cost a budd o nifer y pwyllgorau ychwanegol y gallai fod eu hangen ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal adolygiad o gyfluniad presennol swyddfeydd yr Aelodau yn Nhŷ Hywel, gan gynnwys:

- asesiad a dadansoddiad cost a budd ar y defnydd o weithio cynllun agored; ac
- asesiad o'r defnydd o ynni.

**Argymhelliad 8.** Yng ngoleuni'r system etholiadol newydd a allai arwain at gynnydd yng nghostau teithio, llety preswyl a staff yr Aelodau, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn ailasesu'r costau hyn ac yn darparu ystod o gostau yn hytrach na defnyddio costau cyfartalog yr Aelodau presennol, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn diweddaru'r amcangyfrifon cost sy'n ymwneud ag Aelodau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

- gan ddefnyddio'r wybodaeth ariannol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau diweddaraf sydd ar gael; ac
- yn cynnwys y cyflog ychwanegol i arweinwyr grŵp gwleidyddol (nad yw yn y llywodraeth) ar gyfer pob Aelod yn eu grŵp (hyd at yr uchafswm y mae’r Penderfyniad yn ei ganiatau).

**Argymhelliad 10.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud rhagor o waith i asesu’r effaith y bydd gwahanol ddemograffeg o ran Aelodau sy’n cael eu hethol o’r newydd yn ei chael ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

**Argymhelliad 11.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch yr amserlen waith a gaiff ei dilyn ar ystadau’r Senedd a Thŷ Hywel os na chytunir ar y Bil.

# 4. Costau Llywodraeth Cymru

## Costau trosiannol a pharhaus

**91.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd cost drosiannol o £1,968,600 i Lywodraeth Cymru ar gyfer creu swyddfeydd Gweinidogol ychwanegol yn Nhŷ Hywel a chostau staff i roi'r Bil ar waith.[79]

**92.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod disgwyl y bydd costau parhaus Llywodraeth Cymru rhwng £8,342,300 a £10,270,200. Disgwylir mai costau cyfle fydd y rhan fwyaf o'r costau, a hynny'n gysylltiedig ag angen staff swyddfa breifat ac Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ychwanegol, yn ogystal â diogelwch a TG.[80]

## Gweinidogion Cymru ychwanegol a chymorth gweinyddol cysylltiedig

**93.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi tri senario mewn perthynas â nifer y Gweinidogion:

- dim Gweinidogion ychwanegol yn cael eu penodi
- penodi pum Gweinidog ychwanegol (a ganiateir yn y Bil)
- penodi cyfuniad o Weinidogion a Dirprwy Weinidogion i'r pum swydd Weinidogol ychwanegol.

**94.** Byddai penodi pum Gweinidog ychwanegol yn costio tua £1.3 miliwn y flwyddyn i ddarparu cymorth Swyddfa Breifat.[81] Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cynnwys costau o £963,000 i ddarparu cymorth Swyddfa Breifat i dri Gweinidog a dau Ddirprwy Weinidog, a fyddai'n cael eu hysgwyddo o 2026-27. Mae'r costau'n seiliedig ar gyfansoddiad safonol Swyddfeydd Preifat Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion.[82]

**95.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod Gweinidogion Cymru yn cael cymorth uniongyrchol gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau Gweinidogol. Amcangyfrifir y byddai'r cymorth ychwanegol yn

[79] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127
[80] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127
[81] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 171
[82] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 170 a 171

cael ei ddarparu o'r adnoddau presennol drwy adleoli staff o rolau eraill. Byddai hyn yn arwain at gost cyfle, sydd wedi'i chynnwys yng ngoblygiadau cost y Bil.[83]

**96.** Dywedodd y Gweinidog:

> *"… on the basis that the resources we have currently provide for all the existing responsibilities we have, the only circumstances where additional resource would, I think, actually be needed would be, for example, if there were additional devolved responsibilities. You know, of course, of Welsh Government's interest on the issues of youth justice, probation and so on. Well, if those were to come—well, of course, those would be as a result of negotiations with the UK Government, not only in terms of the transfer of those responsibilities, but also in terms of the costs that flow with them. So, those are things that would be incorporated separately, would need to be assessed by the Senedd separately, while on the basis of the existing responsibilities we have, and existing resources, it really is a question of the maximisation of the way in which they are used, the most efficient way and the most prioritised way, and the most focused way."*[84]

**97.** Fodd bynnag, nododd y Gweinidog, os oes mwy o Weinidogion, mae'n bosibl y bydd mwy o bwyllgorau yn y Senedd.[85] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"So, there's attendance at committees, there's the support for Ministers in terms of the briefings for those particular committees, potentially more questions that have to be responded to, and there might be more engagements and so on that have to be accommodated. Now, all those are accommodated with a certain number of Ministers at the moment. The issue there, of course, is, in order to have better scrutiny, there needs to be more time allocated to it. But I think the actual work that's done—the briefings, the policy work, the support work—is work that takes place anyway. I think all that happens is that that becomes the subject of much greater focus, and ministerial time is actually greater to enable the*

[83] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 168
[84] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 18 Hydref 2023
[85] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 18 Hydref 2023

*Minister to actually be able to, not only specialise in those areas, but, then, to respond to them as well."*[86]

## Barn y Pwyllgor

**98.** Nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi gan ddadl y Gweinidog na fydd cynnydd yn nifer Gweinidogion Cymru yn arwain at gynnydd yn nifer swyddogion Llywodraeth Cymru, oni bai y caiff cyfrifoldebau pellach eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae'r Gweinidog yn honni bod y lefelau staffio presennol yn darparu ar gyfer yr holl gyfrifoldebau presennol. Fodd bynnag, y Senedd yw'r lleiaf o'r tair deddfwrfa ddatganoledig, a Llywodraeth Cymru yw'r lleiaf o'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig. Gan fod y bwlch cymhwysedd deddfwriaethol rhwng Cymru a'r ddwy ddeddfwrfa ddatganoledig arall bellach wedi lleihau, mae'n rhesymol tybio, os bydd cynnydd i'r Weithrediaeth, y gallai fod angen cynnydd yn y gwasanaeth sifil hefyd.

**99.** At hynny, fel y mae'r Gweinidog yn ei gydnabod, mae'n anochel y bydd gan y cynnydd ym maint y Senedd a'r cynnydd posibl yn nifer y Gweinidogion oblygiadau sylweddol i ffyrdd Llywodraeth Cymru ei hun o weithio, wrth iddi ymateb i lefelau cynyddol o waith craffu seneddol. Mae maint y cynnydd yn nifer swyddi'r llywodraeth yn awgrymu y bydd yn anodd cynnal lefelau cymorth gweinidogol gyda'r adnoddau presennol, a gofynnwn fod gwaith pellach yn cael ei wneud i ddeall yr effaith debygol a gaiff hyn ar weithlu Llywodraeth Cymru.

**100.** Mae'n werth nodi mai diben y ddeddfwriaeth yw cynyddu capasiti yn y Senedd. Fodd bynnag, os defnyddir rhywfaint o'r capasiti sy'n deillio yn sgil Aelodau ychwanegol i gynyddu maint y Weithrediaeth, bydd llai o'r capasiti newydd ar gael ar gyfer rolau craffu. Mae hyn yn codi amheuaeth ynghylch yr arbedion posibl a fyddai'n deillio o'r Bil o ganlyniad i waith craffu seneddol gwell, ac rydym yn galw am i ragor o waith gael ei wneud i ddeall effaith ariannol y newid hwn yn well.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu tystiolaeth i gadarnhau'r honiad na fydd angen unrhyw staff ychwanegol ar Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gynnydd yn aelodaeth y Senedd.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i asesu'r effaith y bydd cynnydd mwyaf yn nifer Gweinidogion Cymru yn ei chael ar nifer yr Aelodau sydd ar gael i ymgymryd â rôl graffu, a'r effaith y bydd

---

[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 18 Hydref 2023

hyn yn ei chael ar yr arbedion posibl o ganlyniad i waith craffu gwell y cyfeiriodd y Gweinidog atynt.

# 5. Adolygiadau Ffiniau a Chostau Etholiadau

### Awdurdodau Lleol

**101.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod cost drosiannol o £60,000 i awdurdodau lleol yn deillio o'r Bil.

**102.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod cryn ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch y costau i'r awdurdodau lleol ac mae'n bosibl y gellid dod o hyd i gostau ac arbedion ychwanegol unwaith y bydd y trefniadau paru ar gyfer etholaethau wedi'u cadarnhau, a bod awdurdodau lleol yn gallu ystyried effaith weithredol y rheini a'r goblygiadau o ran costau etholiadau.[87]

**103.** Mewn ymateb i'r ansicrwydd ynghylch y costau i awdurdodau lleol, rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor:

> *"… costs borne by local authorities in respect of elections are borne by the Welsh Government, so they are paid for. We do have the figures in respect of previous elections, and so on. The uncertainties predominantly flow from the boundary pairings, and so on. And as I've said earlier, this is work in progress, and as things are known, then better costings and evaluations will be done of that."*[88]

### Gostyngiad yn hyd tymhorau'r Senedd

**104.** Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gostyngiad yn hyd tymhorau'r Senedd o bum mlynedd i bedair blynedd, a hynny drwy newid pa mor aml y cynhelir etholiadau cyffredinol arferol. Byddai hyn yn golygu, yn dilyn yr etholiad cyffredinol arferol ym mis Mai 2026, y caiff yr etholiad cyffredinol arferol nesaf ei gynnal ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai 2030, yna mis Mai 2034, ac yn y blaen.[89]

**105.** Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol[90] at y Pwyllgor Biliau Diwygio mewn perthynas â goblygiadau cost sy'n deillio o'r gostyngiad yn nhymhorau'r Senedd sydd heb eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi:

---

[87] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 211
[88] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 242, 18 Hydref 2023
[89] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 92
[90] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Bwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd

> *"Mae dychwelyd at gylch etholiadol pedair blynedd yn dwyn effeithiau canlyniadol ar fy nyletswyddau i gynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy a nodir yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015."*[91]

**106.** Mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn egluro y byddai'n gweld:

> *"…cynnydd o 25% ym mynychder archwiliadau ac adroddiadau datblygu cynaliadwy, a fydd bron yn sicr yn arwain at gynnydd tebyg yng nghost gwaith o'r fath. Mae'n anodd modelu'r union effaith, gan bod peth gwaith a wneir i gyflawni'r ddyletswydd dan adran 15 yn goleuo gwaith i gyflawni swyddogaethau eraill hefyd.* Fodd bynnag, gan mai oddeutu £1.8 miliwn yw cost bresennol gwaith o'r fath i ateb y gofynion statudol lleiaf ar gyfer 48 o gyrff ym mhob cylch etholiadol (yn ôl prisiau cyfredol a chan gydymffurfio â safonau ansawdd cyfredol), gallai cynnydd o'r fath fod yn gyfanswm o tua £435,000 ar y cyfan ym mhob cylch. *Wrth reswm, byddai'r cynnydd yn fwy os dynodir cyrff pellach."*[92]

**107.** Yn ogystal, mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod "effeithiau tebyg sy'n gysylltiedig â'r cylch etholiadol ar Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol".[93]

**108.** Fodd bynnag, mae'r llythyr yn nodi bod y rhagolygon y bydd costau gwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn codi o ganlyniad i'r Bil yn "tanlinellu'r angen am adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf 2015". Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol, er ei fod yn deall y gallai fod "rhyw waith gwerthuso ôl-ddeddfwriaethol yn yr arfaeth gan Lywodraeth Cymru", nid yw'n hysbys "a fydd hwnnw'n ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddf 2015 i ymdrin ag effaith y Bil".[94] Mae'r llythyr yn mynd yn ei flaen:

> *"Mae Deddf 2015 wedi gwreiddio'r cysyniad a'r arfer o gynnal archwiliadau allanol rheolaidd o'r modd yr ymlynir wrth yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a mynd ar drywydd amcanion llesiant, ond byddai'n ymddangos ei bod yn briodol mynd ati yn awr i fireinio'r model fel bod y gwaith archwilio ac adrodd hwnnw'n gallu bod yn seiliedig ar risg ac felly'n fwy cymesur ac wedi'i symleiddio'n fwy ar y cyfan, ac felly'n osgoi neu liniaru'r costau ychwanegol yr wyf wedi'u disgrifio."*[95]

---

[91] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Bwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd
[92] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Bwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd
[93] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Bwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd
[94] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Bwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd
[95] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Bwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd

## Arbedion costau

**109.** Mae arbedion cost parhaus o £751,000 wedi'u nodi ar gyfer awdurdodau lleol o ganlyniad i newidiadau i'r system etholiadol (gostyngiad yn nifer y papurau pleidleisio) a nifer yr etholaethau (arbediad ar ffioedd Swyddogion Canlyniadau).[96]

**110.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi:

> *"Efallai y bydd arbedion pellach unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am yr union broses o baru etholaethau, a fydd yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ar faterion etholiadol ymarferol megis maint a lleoliad y lleoliadau cyfrif."*[97]

**111.** Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd 'swmp' yr arbedion o £751,000 yn cael eu gwneud o'r ffordd y caiff yr etholiadau eu gweithredu oherwydd mai dim ond un papur pleidleisio fydd yna. Dywedodd y byddai'r arbedion dros gyfnod o wyth mlynedd ar gyfer etholiadau 2026 a 2030. Ychwanegodd:

> *"There are certain other savings that exist by virtue of the fact that there will only be, potentially, 16 central counting centres. There are certain imponderables in terms of costs, in terms of knowing precisely once a pairing is complete—we don't know what that pairing might ultimately amount to, but there are certain savings that are there as well."*[98]

**112.** Esboniodd Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru:

> *"… Within the broader scope of costs, I think the conversations that we had with the local authority representatives were that a number of these things act against each other, so the larger count venues may be more expensive, but then you would have fewer of them, for example, and you may therefore have some additional savings that are offset by others. So because there were a number of things interplaying, it was just impossible to quantify it."*[99]

**113.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor fod gweithgor wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r gymuned etholiadol ar draws nifer o awdurdodau lleol.[100] Dywedodd:

---

[96] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127
[97] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127
[98] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 187, 18 Hydref 2023
[99] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 18 Hydref 2023
[100] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 174, 18 Hydref 2023

> *"… they identified that there may be other savings and also other costs that were impossible to quantify until the constituencies were known, and that involves the counts and the count venue, but also the location of polling stations, and so on, which may need to be reviewed in light of the boundary review having been completed."*[101]

### Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

**114.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd cost drosiannol o £42,000 i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer cynnal adolygiadau ffiniau cyn etholiadau 2026 a 2030.

**115.** Byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ysgwyddo costau o £2,307,600 ar gyfer cynnal adolygiadau ffiniau cyn etholiadau'r Senedd yn 2026 a 2030.[102]

**116.** Dywedodd y Gweinidog, yn achos etholiadau 2026:

> *"… we're using the parliamentary boundaries that are now established. The election after that … for 2030, it would be a review, which allows some review of the boundaries within, I think, a 10 per cent margin. So, that would be, obviously, substantially more work…"*[103]

**117.** Ychwanegodd Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru:

> *"The review ahead of the 2026 election is a streamlined review, but it is undertaken in a much shorter time frame, whereas, the full review that would follow the 2026 election, the annual costs are lower, but, actually, it's over a three-year period as opposed to over a single-year period. The Bill obviously requires the boundary commission to undertake certain steps, including public consultation, and so the costs are associated with that step as well as obviously the work to actually pair for 2026, and then, obviously, a much more detailed exercise."*[104]

**118.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru:

> *"The RIA does include, for the local democracy and boundary commission, the cost of additional commissioners, but also the*

---

[101] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 188, 18 Hydref 2023
[102] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127
[103] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 274, 18 Hydref 2023
[104] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 275, 18 Hydref 2023

> *cost of additional staff—or rather the staff required to deliver on the boundary review—some of which, as you said, Chair, are opportunity costs and some are actually requirements for additional staff."*[105]

**119.** Mewn llythyr at y Pwyllgor Biliau Diwygio, dywed y Gweinidog:

> *"Mater i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru fydd penderfynu ar ei anghenion ar ôl ystyried ei lwyth gwaith yn ei gyfanrwydd. Mae trafodaethau cychwynnol gydag ysgrifenyddiaeth bresennol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn awgrymu y byddai natur baru gymharol syml adolygiad 2026 – ynddi'i hun – yn golygu y gallai'r Comisiwn o bosibl gynnal yr adolygiad gyda'r nifer bresennol o Gomisiynwyr.* Fodd bynnag, bydd llwyth gwaith Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru hefyd yn cynnwys y swyddogaethau ychwanegol a roddir gan Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a bydd angen i'r Comisiwn ystyried y rhain wrth gynllunio busnes. O ganlyniad, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynnydd yn nifer mwyaf y Comisiynwyr i naw, sy'n adlewyrchu'r cynnydd a ragwelir yn llwyth gwaith y Comisiwn yn y tymor hwy, a fydd hefyd, yn ogystal â'r angen am adolygiadau llawn o ffiniau'r Senedd, yn deillio o drosglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, drwy Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Fodd bynnag, nifer mwyaf o Gomisiynwyr yw hwn, ac nid targed. *Bydd unrhyw gynnydd yn nifer y Comisiynwyr yn amodol ar ofyniad, ynghyd â gweithdrefn penodiadau cyhoeddus gadarn."*[106]

## Barn y Pwyllgor

**120.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r costau trosiannol cychwynnol o £60,000 i awdurdodau lleol yn 2025-26, ac mae'n falch o glywed yr amcangyfrifir y bydd arbediad o £375,500 fesul blwyddyn etholiad ar ôl y pwynt hwn. Cafodd cynnydd ym mynychder etholiadau i dymhorau pedair blynedd ei gostio, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â'r angen am leoliadau cyfrif mwy o faint, a wrthbwyswyd gan yr angen am nifer lai ohonynt a'r defnydd o un papur pleidleisio yn hytrach na dau.

**121.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r gostyngiad yn nifer yr etholiadau i bob pedair blynedd, a'r cynnydd yn nifer yr Aelodau, arwain at fwy o ansefydlogrwydd o ran

---

[105] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 271, 18 Hydref 2023
[106] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Biliau Diwygio, 8 Tachwedd 2023

aelodaeth o un Senedd i'r llall. Os bydd nifer fwy o Aelodau'n gadael eu swydd, a bod hyn yn digwydd yn amlach nag o dan y cylch etholiadol pum mlynedd presennol, gallai fod cynnydd yn y goblygiadau cost ar gyfer grantiau adsefydlu a chostau eraill y caniateir ar eu cyfer yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi y gallai unrhyw anwadalrwydd gael ei liniaru gan y system etholiadol newydd, a allai arwain at fwy o sefydlogrwydd o ran trosiant Aelodau ym mhob etholiad.

**122.** Rydym yn nodi'r llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol at y Pwyllgor Biliau Diwygio. Mae'r llythyr yn tynnu sylw at y goblygiadau cost posibl i'r Archwilydd Cyffredinol, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn deillio o'r cylchoedd etholiadol pedair blynedd. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall a yw'r Gweinidog yn bwriadu osgoi'r costau ychwanegol hyn, neu eu lliniaru. Os nad dyma'r achos, dylai'r costau a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol gael eu hasesu a'u hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio Archwilio Cymru yn ystod y Senedd bresennol, rydym yn nodi'r effaith y bydd y newid hwn yn ei chael ar ei waith.

**123.** Mae'r Pwyllgor yn nodi mai ymarfer paru fydd yr adolygiad ffiniau cychwynnol, gan ddefnyddio'r 32 o etholaethau Senedd y DU yng Nghymru a gynigiwyd gan Gomisiwn Ffiniau Cymru, a'u paru i greu 16 etholaeth ar gyfer etholiadau'r Senedd. Yn achos adolygiadau dilynol, caiff etholaethau newydd eu llunio fel na fydd yr un etholaeth 10 y cant yn uwch neu'n is na chydraddoldeb etholiadol. Felly, gallai hyn arwain at newid sylweddol, a chostau uwch o ganlyniad.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i ddeall lefel yr anwadalrwydd o ran aelodaeth o un Senedd i'r nesaf, a'r goblygiadau cost cysylltiedig, gan gynnwys yr effaith ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau, yng ngoleuni'r newid i gylch etholiadol pedair blynedd.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi eglurhad o'r costau posibl a nodwyd i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol o ganlyniad i gylch etholiadol pedair blynedd.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gostau unwaith y bydd yr holl newidiadau perthnasol i'r ffiniau wedi'u cwblhau, a hynny er mwyn galluogi'r Pwyllgor neu bwyllgor cyllid yn y dyfodol i ddeall effaith ariannol lawn y Bil.

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **11 Hydref 2023** | **Ken Skates AS,**<br>Comisiynydd y Senedd sydd â chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethiant<br>**Manon Antoniazzi,**<br>Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>**Kate Innes,**<br>Prif Swyddog Cyllid y Senedd<br>**Alun Davidson,**<br>Clerc Strategaeth Busnes Seneddol y Senedd |
| **11 Hydref 2023** | **Dr Elizabeth Haywood,**<br>Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd<br>**Daniel Hurford,**<br>Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd |
| **18 Hydref 2023** | **Mick Antoniw AS,**<br>y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>**Will Whiteley,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru<br>**Emma Alexander,**<br>Pennaeth Cyflawni Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru |